Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Dolwyddelan
**Ffordd Tŷ Isaf**
**Dolwyddelan**
**Conwy**
**LL25 0SZ**

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Dolwyddelan

Lleolir Ysgol Gynradd Dolwyddelan ym mhentref Dolwyddelan, a chaiff ei chynnal gan awdurdod lleol Conwy. Mae 25 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol.

Tros dreigl tair blynedd, mae tua 7% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r ganran genedlaethol, sef 18%. Mae 24% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 32% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn sylweddol uwch na'r ganran genedlaethol, sef 21%.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Mawrth 2013. Ers 2016, daeth yr ysgol yn rhan o ffederasiwn ffurfiol gydag Ysgolion Betws-Y-Coed a Chapel Garmon gyda un pennaeth gweithredol ac un corff llywodraethol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Dolwyddelan yn ysgol groesawgar a gofalgar. Mae'r staff yn creu amgylchedd dysgu cefnogol ac ysgogol ar gyfer y disgyblion. Mae bron bob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn gofalu am ei gilydd. Maent yn dangos parch tuag at eraill. Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm diddorol sydd yn llwyddo i ysgogi a sicrhau bod pob disgybl yn gwneud cynnydd da o'u man cychwyn.

Mae'r Gymraeg a hunaniaeth Gymreig yn ganolog i waith yr ysgol. Mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn eu bro a'r cysylltiadau agos sydd â'r gymuned leol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o fywyd yn y dyffryn. Mae'r holl staff, gan gynnwys y rheolwr safle, yn cydweithio'n agos gyda'i gilydd er lles y disgyblion.

Penodwyd y pennaeth i'w rôl yn ffurfiol fel pennaeth y ffederasiwn ym mis Mawrth 2016. Mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer Ysgol Dolwyddelan a'i lle o fewn y ffederasiwn. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd a gwerthfawr i ryngweithio â disgyblion mewn ysgolion eraill. Fodd bynnag, ni chaiff rolau a chyfrifoldebau staff eu diffinio'n ddigon clir ar draws y ffederasiwn er mwyn cynnal a gwella'r ddarpariaeth a chodi safonau ymhellach.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwella** |

## Argymhellion

A1 Cryfhau arweinyddiaeth ar bob lefel er mwyn hyrwyddo cydweithio agos rhwng holl staff y ffederasiwn

A2 Cryfhau gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant ar draws y ffederasiwn

A3 Sicrhau bod y llywodraethwyr yn cyflawni eu dyletswyddau statudol yn llawn

A4 Rhannu nodweddion gorau'r addysgu ar draws y ffederasiwn er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn derbyn her gyson i gyflawni hyd eithaf eu gallu

A5 Sicrhau bod adborth athrawon yn galluogi disgyblion i wella eu gwaith

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Maent yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth newydd yn effeithiol ac yn ei chymhwyso i'w gwaith pob dydd yn llwyddiannus.

Mae llawer o ddisgyblion yn cychwyn yn yr ysgol â medrau Cymraeg sydd yn is na'r safon ddisgwyliedig am eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, maent yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu medrau cyfathrebu Cymraeg cadarn. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau llafar yn llwyddiannus ac yn defnyddio'r Gymraeg gyda hyder wrth ymateb i gwestiynau neu gwblhau heriau. Er enghraifft, mae llawer o blant y cyfnod sylfaen yn dwyn i gof stori'r tri mochyn bach ac yn ei hactio mewn grŵp o gyfoedion yn hyderus.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau darllen. Yn y blynyddoedd cynnar, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn wrth adnabod llythrennau a seiniau, ac mae'r mwyafrif yn dechrau adnabod geiriau yn llwyddiannus. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn ddarllenwyr medrus. Maent yn talu sylw priodol i atalnodi ac yn ynganu'n glir a chywir. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn siarad gyda brwdfrydedd am eu hoff awduron a chyfresi o lyfrau. Mae'r rhan fwyaf yn darllen gyda chywirdeb cynyddol yn y ddwy iaith, a llawer yn newid tôn eu llais yn bwrpasol er mwyn creu effaith.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu. Maent yn ffurfio llythrennau yn gywir ac yn ysgrifennu brawddegau sydd â chystrawen addas, er enghraifft wrth ymateb i gwestiynau am gestyll lleol, neu gofnodi stori Gelert. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu mewn cyd-destunau gwahanol yn effeithiol, er enghraifft trwy ysgrifennu llythyr ffurfiol i fynegi pryder am foddi Cwm Tryweryn gan ddewis geirfa briodol. Mae tua hanner yn dangos balchder yn eu gwaith trwy ei gyflwyno yn daclus, a lleiafrif yn gwneud defnydd rheolaidd o'u medrau llawysgrifen glwm.

Yn y cyfnod sylfaen, mae gan lawer o ddisgyblion fedrau rhifedd da. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod rhifau at ddeg ac yn eu ffurfio yn gywir. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn adio rhifau at ugain yn hyderus ar bapur ac yn eu pennau, a llawer yn llwyddo i dynnu gyda lefel dda o gywirdeb. Mae llawer ohonynt yn cyfri ymlaen ac yn ôl yn hyderus fesul un, dau, tri a phump. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddo i adeiladu ar y medrau hyn er mwyn dod yn hyderus wrth ymdrin â phroblemau mathemateg pen. Maent yn defnyddio strategaethau ysgrifenedig gyda hyder, yn enwedig wrth ystyried adio a thynnu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol. Maent yn gwneud defnydd addas o grwydryn i ddatblygu medrau rheoli cynnar ac yn defnyddio pecyn trin data i greu siart bloc syml. Maent yn defnyddio ap syml ar gyfer animeiddio gwrthrychau yn effeithiol, er enghraifft trwy dynnu llun 'blaidd' dychmygol y maent wedi creu yn yr ardal tu allan a gwneud iddo 'siarad'. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan

fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ychydig o raglenni TGCh yn hyderus. Fodd bynnag, nid ydynt yn cymhwyso'r medrau hyn yn rheolaidd yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae pob un o'r disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn ymwybodol o bwysigrwydd mynychu'n rheolaidd. Mae'r ysgol yn gymuned hapus gyda phawb yn cyd-dynnu. Mae'r disgyblion i gyd yn falch iawn ohoni.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel iawn yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi pe bai pryder ganddynt. Os oes rhywbeth yn eu poeni, gallant adael nodyn yn y blwch teimladau, ac maent yn hyderus y bydd yr athrawon yn ymdrin â'r mater yn amserol ac yn sensitif. Mae ymddygiad bron bob un o'r disgyblion yn y gwersi a thu allan i'r ystafell dosbarth yn gryfder yn yr ysgol. Maent yn dangos parch tuag at ei gilydd, eu hathrawon ac at ymwelwyr. Mae hyn yn amlwg yn y ffordd y maent yn cefnogi ei gilydd wrth weithio, neu wrth gyflwyno eu syniadau neu strategaethau i'r dosbarth. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar y we.

Mae rhan fwyaf yn ymwybodol o bwysigrwydd gwneud y dewisiadau cywir wrth fwyta ac yfed ac i ymarfer y corff yn rheolaidd. Caiff hyn ei atgyfnerthu'n effeithiol mewn ystod eang o weithgareddau chwaraeon, er enghraifft mewn sesiynau addysg gorfforol reolaidd ac wrth gystadlu mewn gemau cyfeillgar gydag ysgolion y dalgylch. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu eu ffitrwydd a'u medrau cymdeithasol.

Mae bron bob un o'r disgyblion yn arddangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau, gan gwblhau gwaith yn frwdfrydig a llwyddiannus. Mae'r disgyblion yn gwerthfawrogi'r cyfle sydd ganddynt i gyfrannu at gynllunio gweithgareddau dosbarth a'r thema dymhorol, er enghraifft wrth gynllunio astudiaeth o'r eisteddfod. O ganlyniad, mae ganddynt fwy o berchnogaeth dros eu dysgu, sy'n arwain at effaith gadarnhaol ar safonau'r rhan fwyaf o ddisgyblion.

Mae gwybodaeth am ddinasyddiaeth fyd-eang a dealltwriaeth o ddiwylliannau llawer o'r disgyblion yn datblygu'n gadarn drwy waith y cyngor eco a'u hastudiaethau yn y dosbarth, er enghraifft effaith tyfu olew palmwydd ar fforestydd glaw. Mae gan y mwyafrif o ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o grefyddau gwahanol.

Mae cyngor ysgol a chyngor eco brwdfrydig yn yr ysgol. Mae eu syniadau yn cael eu casglu a'u trafod mewn cyfarfodydd rheolaidd, er enghraifft trwy gytuno ar arwyddair yr ysgol, "Gyda'n gilydd, llwyddwn". Maent yn trefnu gweithgareddau i gasglu arian ar gyfer elusennau. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth rhan fwyaf y disgyblion o anghenion eraill o fewn eu cymuned a'r byd ehangach. Fodd bynnag, nid yw'r cynghorau ysgol yn gweithredu'n ddigon rhydd rhag arweiniad staff, sy'n cyfyngu ar allu'r disgyblion i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae gan athrawon a staff cymorth yr ysgol berthynas waith gadarnhaol gyda'r disgyblion sydd yn eu galluogi i ddatblygu yn llwyddiannus. Maent yn cynnal ymddygiad da, yn rheoli eu dosbarthiadau ac yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol. O

ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu hamser yn yr ysgol.

Mae'r athrawon yn cynllunio gwersi diddorol sy'n llwyddo i ennyn diddordeb y disgyblion.  Maent yn cyflwyno amcanion dysgu sydd yn glir ac yn sicrhau bod disgyblion yn deall yn iawn beth sydd angen iddynt ei wneud.  Maent yn aml yn defnyddio sbardun lleol, ac mae'r modd y maent yn hybu hanes a diwylliant y dyffryn yn nodwedd gref o'r ddarpariaeth.  Mae athrawon yn sicrhau cyfleoedd rheolaidd i blant ymweld â lleoedd yn yr ardal leol sydd yn ychwanegu at eu brwdfrydedd tuag at waith.  Er enghraifft, trefnwyd iddynt ymweld â Chastell Dolwyddelan, ffermdy Tŷ Isaf a Chapel Moreia.

Yn ystod gwersi, mae'r athrawon yn gosod disgwyliadau pendant sydd yn sicrhau bod y disgyblion yn gweithio ar dasg.  Maent yn defnyddio strategaethau holi effeithiol er mwyn annog pob disgybl i wneud cynnydd.  Mae athroniaeth y cyfnod sylfaen ar waith yn amlwg, gyda'r ardaloedd dysgu yn fannau deniadol sydd yn cael eu cynllunio'n bwrpasol.   Darperir cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion gyfrannu at gynllunio themâu, a gwneir defnydd effeithiol a rheolaidd o'r ardaloedd tu allan. Mae'r cymhorthydd cyfnod sylfaen yn cefnogi'r addysgu yn effeithiol iawn, yn enwedig trwy gyfrannu at osod sylfaen ieithyddol gadarn i'r disgyblion ieuengaf.  Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau dysgu diddorol sydd yn ymateb i ofynion pob disgybl.  Mae disgyblion yn cael cyfleoedd i weithio mewn amrywiaeth o ffurfiau gwahanol, gan gynnwys gwaith unigol, mewn parau ac mewn grwpiau.

Mae athrawon yn rhoi adborth addas ar waith disgyblion.  Maent yn cynnig canmoliaeth neu yn ymyrryd yn effeithiol yn y dysgu, lle bo'n briodol.  Yn yr arferion gorau, mae'r disgyblion yn derbyn adborth un ai ar lafar neu ar bapur sydd yn arwain at wella eu gwaith.  Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion yn y cyfnod sylfaen, nid yw'r disgyblion yn deall y sylwadau ysgrifenedig, ac yng nghyfnod allweddol 2 mae'r ffocws yn rhy aml ar gywiro yn hytrach na gwella cynnwys ac ansawdd gwaith y disgyblion.

Ar y cyfan, mae'r ddarpariaeth ar gyfer hybu medrau iaith y disgyblion yn dda.  Trwy'r ysgol, mae athrawon a staff cefnogi yn llwyddo i greu a chynnal naws Cymreig. Maent yn llwyddiannus iawn wrth gyflwyno'r iaith i ddisgyblion di-Gymraeg, ac yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith y disgyblion.  Mae pwyslais amlwg ar ddatblygu medrau llefaredd y disgyblion.  Darperir cyfleoedd rheolaidd iddynt ymarfer eu medrau cyfathrebu trwy actio, er enghraifft wrth i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 berfformio golygfeydd o chwedl 'Llyn yr Afanc'.

Mae athrawon yn llwyddo i ddatblygu medrau ysgrifennu disgyblion yn llwyddiannus yn y ddwy iaith.  Yn yr ychydig weithgareddau llai llwyddiannus, mae gorddefnydd o daflenni gwaith parod ar adegau yn cyfyngu ar y dysgu.  O ganlyniad, nid yw'r gweithgareddau hyn bob amser yn darparu lefel briodol o her er mwyn galluogi'r disgybl i wneud y cynnydd gorau posibl.  Mae athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd mewn gwaith ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth i ddisgyblion y cyfnod sylfaen greu graffiau bloc syml i gofnodi nifer yr ymwelwyr i gastell Dolwyddelan.  Yn y cyfnod sylfaen, mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn cael rhai cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau TGCh.  Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan yr ysgol drefniant effeithiol i gydweithio ag ysgolion eraill yn y ffederasiwn i ddarparu sesiynau wythnosol yn y maes.  O ganlyniad, mae

disgyblion yn cael rhai profiadau gwerthfawr er mwyn datblygu medrau TGCh newydd. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer TGCh yn ddigon bwriadus i alluogi'r disgyblion i gymhwyso'u medrau'n llawn ar draws y cwricwlwm.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol ethos cynnes a chroesawgar sy'n hyrwyddo pwysigrwydd parch ac ymroddiad yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel o fewn cymuned hapus yr ysgol. Mae ymddygiad bron bob un o'r disgyblion yn gadarnhaol tuag at ei gilydd, ar y buarth, ac wrth ymgymryd â'u holl gweithgareddau.

Mae'r ethos Cymreig a'r defnydd o'r ardal leol yn gryfder yn yr ysgol. Mae athrawon yn trefnu ystod eang o ymweliadau a phrofiadau i gynyddu ymwybyddiaeth y disgyblion o hanes lleol a Chymru, er enghraifft wrth ymweld â Chanolfan Amgylchedd Llyn Brennig a'u hastudiaeth o foddi Capel Celyn. Mae llysgenhadon yn arwain gweithgareddau llwyddiannus i annog defnyddio'r Gymraeg yn y dosbarth ac yn gymdeithasol.

Mae'r gymuned yn ganolog i fywyd yr ysgol ac mae disgyblion yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau cymunedol, er enghraifft y carnifal lleol a sioeau blodau. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol disgyblion yn effeithiol iawn. Trwy astudio artistiaid lleol, darparu gwersi cerddoriaeth, cynnal gwaith animeiddio, chwarae rôl a chystadlu mewn eisteddfodau, mae'r ddarpariaeth yn cyfrannu'n llwyddiannus at fagu hunanhyder llawer o'r disgyblion a'u gallu i gydweithio'n effeithiol.

Mae athrawon yn adnabod y disgyblion yn dda ac mae gan yr ysgol ddull effeithiol ar gyfer olrhain cynnydd y disgyblion. Mae'r athrawon yn cynnal asesiadau rheolaidd ac yn dadansoddi gwybodaeth asesu'n fanwl. Maent yn ei defnyddio i gynllunio ymyraethau cynnar sy'n sicrhau cynnydd cadarn yn natblygiad dysgu a lles disgyblion. Mae gan yr ysgol ddarpariaeth effeithiol ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn dilyn mewnbwn gan rieni, mae gan bob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun dysgu priodol sy'n cynnwys y targedau sydd angen arnynt i wella eu gwaith. Maent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn. Defnyddir y cymorthyddion addysgu yn effeithiol ar draws yr ysgol i gefnogi disgyblion yn eu dysgu ac i weithredu rhaglenni ymyrraeth. Mae'r ysgol yn darparu cymorth bugeiliol buddiol i'r holl ddisgyblion. Mae'r staff yn cydweithio'n ofalus gyda nifer o wasanaethau ac asiantaethau allanol i ddarparu rhaglenni penodol a chynnig arweiniad yn y maes. Mae'r staff yn defnyddio rhaglen benodol i asesu a chefnogi disgyblion â phroblemau emosiynol. Mae perthynas werthfawr rhwng yr ysgol a'r Cylch Ti a Fi sy'n hyrwyddo datblygiad ieithyddol cynnar llawer o ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. Mae cyfnodau cyd-addoli gwerthfawr yn sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio, ystyried safbwyntiau eraill a hybu gwerthoedd yr ysgol. Mae hyn yn cael ei gyfoethogi ymhellach wrth i'r ysgol wahodd aelodau o gapeli ac eglwysi lleol i arwain gwasanaethau. Mae cyfleoedd da ar gyfer magu goddefgarwch a chydraddoldeb yn yr ysgol ac mae perthynas fuddiol gyda'r swyddog heddlu sy'n cefnogi'r gwaith hwn yn synhwyrol.

Mae disgyblion yn cael cyfleoedd cynhyrchiol i ddylanwadu a rhoi cyfeiriad i'w gwaith yn y dosbarth. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r disgyblion yn gwneud dewisiadau da dros

yr hyn y maent yn ei ddysgu. Ar draws yr ysgol, mae'r disgyblion yn cynnig syniadau ar ddechrau'r themâu i lywio cyfeiriad eu dysgu. Mae hyn yn datblygu elfen o berchnogaeth dros eu gwaith a chynyddu eu brwdfrydedd.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwella**

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir sy'n seiliedig ar sicrhau bod pob disgybl yn datblygu i'w lawn botensial mewn amgylchedd ddysgu hapus, diogel ac ysgogol. Gwneir hyn drwy gyflwyno pob disgybl i etifeddiaeth Gymraeg a'u datblygu yn aelodau llawn o gymdeithas. Mae'r weledigaeth ar gyfer y ffederasiwn yn cael ei rhannu'n effeithiol gyda'r disgyblion, y staff ac aelodau'r corff llywodraethol. Nodwedd gadarnhaol yw fod pob ysgol unigol wedi cadw ei naws unigryw ei hun.

Mae'r staff wedi dechrau cefnogi'r pennaeth drwy gymryd cyfrifoldeb am ddatblygu elfennau o fywyd a gwaith yr ysgol yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r trefniadau a'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig nawr yn gyson ar draws ysgolion y ffederasiwn. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar godi safonau'r disgyblion perthnasol. Yn ogystal, daw staff y cyfnod sylfaen at ei gilydd i gydgynllunio gweithgareddau er mwyn rhannu arfer dda ac i sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth yn llwyddiannus. Fodd bynnag, er bod y ffederasiwn mewn bodolaeth ers tair blynedd, nid yw'r arferion hyn wedi sefydlu'n llawn eto.

Mae gan bob aelod o staff ddealltwriaeth gadarn o'u rolau o fewn eu hysgolion unigol. Fodd bynnag, nid oes dealltwriaeth drylwyr na chytûn am rolau arweinwyr a'u cyfrifoldebau addysgu a dysgu ar draws y ffederasiwn. Golyga hyn nad yw dyletswyddau yn cael eu dyrannu'n deg ac nid yw llinellau atebolrwydd yn ddigon cadarn. O ganlyniad, nid yw'r strwythur arweinyddiaeth a staffio presennol yn ddigon cynaliadwy i gael ei lawn effaith ar gyfer cynnal a gwella'r ddarpariaeth a chodi safonau ymhellach.

Mae'r pennaeth yn darparu cyfleoedd defnyddiol i'r holl staff adrodd ar gryfderau ac agweddau sydd angen eu cryfhau o fewn yr ysgol. Ar y cyfan, mae hyn yn arf effeithiol i adnabod yr angen am welliant ar draws y ffederasiwn. Er enghraifft, wrth ddadansoddi sylwadau'r staff, adnabuwyd bod angen cysoni profiadau TGCh y disgyblion. Trefnodd arweinwyr fod disgyblion cyfnod allweddol 2 i gyd yn ymweld ag Ysgol Betws-Y-Coed yn wythnosol ar gyfer gwersi TGCh. O ganlyniad, mae safonau'r disgyblion wedi codi ar draws y ffederasiwn.

Fodd bynnag, cyfyng yw'r ystod o weithgareddau monitro, gwerthuso a sicrhau ansawdd a gynhelir yn rheolaidd. O ganlyniad, nid yw'r prosesau yn ddigon grymus i fynd i'r afael yn llwyddiannus â'r meysydd sydd angen eu gwella bob tro; er enghraifft, mae athrawon yn gorddefnyddio taflenni parod sydd yn llesteirio creadigrwydd y disgyblion.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo datblygiad proffesiynol holl staff yr ysgol yn effeithiol. Maent yn darparu hyfforddiant rheolaidd i'r staff, sy'n cael effaith fuddiol ar y ddarpariaeth ac ar safonau disgyblion. Er enghraifft, mae hyfforddiant am sut i hybu medrau meddwl disgyblion yn Saesneg wedi arwain at godi hyder a safonau llafar

disgyblion yn ogystal â'u medrau meddwl.  Mae'r hyfforddiant yn aml yn gysylltiedig â blaenoriaethau ysgol gyfan.

Ers iddynt sefydlu fel un corff unedig, mae'r llywodraethwyr wedi bod yn gefnogol iawn i'r ffederasiwn, ac mae ganddynt afael dda ar safonau a chyflawniad disgyblion ac â sefyllfa gyllidol yr ysgolion.  Maent yn ymweld â'r ysgolion yn rheolaidd ac yn derbyn gwybodaeth ddefnyddiol gan y pennaeth am fywyd a gwaith y ffederasiwn, sy'n atgyfnerthu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn dda.  Maent yn adnabod manteision bod mewn ffederasiwn, gan wneud penderfyniadau ar gyfer y tair ysgol, er enghraifft wrth iddynt fynd i'r afael â sefyllfa ariannol heriol.  Maent yn gweld y potensial buddiol sydd i rannu arbenigeddau staff ar draws y ffederasiwn yn y dyfodol.  Fodd bynnag, nid yw'r llywodraethwyr hyd yma wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol i'r rhieni.

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau'r ysgol yn effeithiol, gyda phenderfyniadau gwariant yn cael eu cynnwys mewn targedau ar gyfer gwella yn briodol.  At ei gilydd, mae arweinwyr yn darparu adnoddau o ansawdd da sy'n diwallu anghenion disgyblion yn synhwyrol.  Mae arweinwyr yn rheoli ardaloedd allanol y cyfnod sylfaen yn effeithiol i wella profiadau dysgu disgyblion yn llwyddiannus.  Mae'r ysgol yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn effeithiol er mwyn darparu cymorth ychwanegol i weithio gyda dysgwyr bregus.  Mae hyn yn cael effaith bositif ar sicrhau bod bron pob un o'r disgyblion hyn yn cyflawni'n dda.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a’r corff llywodraethol/aelodau’r pwyllgor rheoli’ trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a’r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo’n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo’n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion (lle y bo’n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/11/2019